# Tokyo 東京

Prosiect Tokyo

## Polisi a Llywodraethu Addysg Drochi yn Japan a Chymru

プロジェクト東京

## 日本とウェールズにおけるイマージョン教育政策とガバナンス

Project Tokyo

## Immersion Education Policy and Governance in Japan and Wales

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
Carreg Lam
Ysgol Panteg
Meithrin Meddyliau Craff
Ariennir gan
Funded by
Taith
Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government


もんじゃ焼
5·6F
センタービル
5F
麻雀
カラオケ&パーティー
90円
北海道
渋谷センター街
1F/2F
105席
センタービル
鍋
BURGER KING
B1F
SUSHI
このステッカーのお店!!
FamilyMart
消火栓

Ein bwriad yw creu lle ble mae

Our aim is to create a place where

ひと

(hito - pobl - people)

経験

(keiken - profiadau - experiences)

文化

(bunka - diwylliant - culture)

&

言語

(gengo - iaith - language)

yn croestorri i gyfoethogi bywydau plant

intersect to enrich children's lives



## Prosiect Tokyo

Ym mis Hydref 2025, aeth croestoriad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, gan gynnwys uwch-swyddogion, staff Ysgol Panteg, arbenigwyr trochi Carreg Lam a llywodraethwyr, ar ymweliad ymchwil wyth-niwrnod â Metropolis Tokyo, Japan yn dilyn blwyddyn o waith partneriaeth rhyngwladol. Pwrpas yr ymweliad hwn oedd arsylwi ar ddulliau trochi strwythuredig, diwylliannol Tokyo gyda'n llygaid ein hunain; dadansoddi'r methodolegau sy'n creu rhuglder ac ymgysylltiad neilltuol; ac addasu'r mewnwelediadau hynny i gyfoethogi arfer cyfrwng Cymraeg ar draws ysgolion Cymru.

---

## プロジェクト東京

2025年10月、トルファエン郡区議会の幹部職員、イスゴル・パンテグ職員、カレグ・ラムのイマージョン専門家、そして理事からなる8日間の調査訪問が、1年間にわたる国際パートナーシップ活動を経て、東京都で行われました。この訪問の目的は、東京における体系的かつ文化に根ざしたイマージョン教育のアプローチを直接観察し、卓越した流暢さと積極的な関与を生み出す方法論を分析し、その知見をウェールズの学校におけるウェールズ語による教育実践の充実に役立てることでした。

---

## Project Tokyo Summary

In October 2025, an eight-day research visit to Tokyo Metropolis, Japan was undertaken by a cross-section of Torfaen County Borough Council made up of senior officers, Ysgol Panteg staff, Carreg Lam immersion specialists and governors following a year's worth of international partnership work. The purpose of this visit was to observe first-hand Tokyo's structured, culturally grounded approaches to immersion; to analyse the methodologies that yield exceptional fluency and engagement; and to adapt those insights to enrich Welsh-medium practice across Wales' schools.



Prif Awduron yr Adroddiad / 報告書の主著者 / Principal Authors of Report
アンドリュー・パウルズ博士 / Dr. Andrew Powles
デイビッド・チャイルズ/ David Childs

Aelodau Tîm Prosiect Tokyo / プロジェクト東京チームメンバー / Project Tokyo Team Members
マシュー・ウィリアムソン・ディケン博士 / Dr. Matthew Williamson-Dicken
カリス・ソーパー / Carys Soper
ネリス・フィリップス / Nerys Phillips
メガン・ストークス / Megan Stokes
レベッカ・ブラックモア / Rebeca Blackmore

# Tabl Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** ........ t.11

**Cyflwyniad** ........ t.14

1. **Addysg Drochi yn Japan a Tokyo: Polisi, Cynllunio a Gwerthuso** ........ t.17

1.1. Seiliau Llywodraethu a Pholisi Cenedlaethol ........ t.17

1.2. Strwythur Llywodraethu a Gwahaniaethau Strategol Tokyo ........ t.19

1.3. Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo: Strwythur a Rôl Strategol ........ t.20

1.4. Byrddau Addysg Lefel Ward: Strwythur ac Arloesi Lleol ........ t.23

1.5. Gwerthuso a Goruchwylio yn Nhirwedd Addysg Drochi Tokyo ........ t.25

1.6. Ysgolion Rhyngwladol a Phreifat: Trochi yn Ddiofyn ........ t.27

1.7. Gyrwyr Sosioieithyddol yr Angen am Drochi ........ t.30

1.8. Casgliad yr Adran ........ t.35

2. **Addysg Drochi yng Nghymru: Polisi, Cynllunio ac Arolygu** ........ t.38

2.1. Llywodraethu Cenedlaethol a Seiliau Strategol yng Nghymru ........ t.38

2.2. Llywodraethu Awdurdodau Lleol a Chynllunio Strategol yng Nghymru ........ t.41

2.3. Llywodraethu Ysgolion Unigol ac Arwain Trochi yng Nghymru ........ t.45

2.4. Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer y Ddarpariaeth Drochi yng Nghymru ........ t.48

2.5. Gyrwyr Sosioieithyddol a Rhesymeg Addysgegol ar gyfer Trochi yng Nghymru ........ t.51

2.6. Casgliad yr Adran ........ t.55

3. **Fframweithiau Trochi Cyferbyniol: Cymharu Cymru a Tokyo** ........ t.58

3.1. Saernïaeth Polisi Cenedlaethol a Bwriad Strategol ........ t.59

3.2. Fframweithiau Gwerthuso ac Arolygu ........ t.60

3.3. Goruchwyliaeth Addysgegol ac Ansawdd Trochi ........ t.61

3.4. Strwythurau Llywodraethu a Goruchwylio ........ t.63

3.5. Asesu Iaith a Datblygiad Proffesiynol ........ t.64

3.6. Casgliad yr Adran ........ t.65

4. **Argymhellion** ........ t.68

A1: Creu Cyfleoedd ar gyfer Cymraeg Sefyllfaol mewn Cymunedau ........ t.68

A2: Buddsoddi mewn Cynnwys Digidol Cymraeg sy'n Adlewyrchu Diwylliant Ieuenctid ac yn Cefnogi Gwrando Sefyllfaol ........ t.70

A3: Ail-fframio Addysg Ddiwylliannol i Adlewyrchu Hunaniaeth Gymreig Gyfoes ........ t.72

A4: Archwilio Modelau Llywodraethu sy'n Seiliedig ar Glwstwr i Gyfoethogi Aliniad Strategol ac Effeithlonrwydd ........ t.73

A5: Annog Ffederasiynau Cyfrwng Cymysg Lle Mae Cyfleoedd Gwirfoddol yn Codi i Gefnogi Twf y Gymraeg ........ t.75

5. **Crynodeb o'r Cwestiynau Ymchwil Allweddol** ........ t.78

5.1. Pa fframweithiau rheoleiddio a chyfreithiol sy'n cefnogi trochi iaith yn ysgolion Japan? ........ t.78

5.2. Sut mae polisïau addysg cenedlaethol yn Japan yn cefnogi mentrau trochi iaith cynradd? ........ t.80

5.3. Beth yw amcanion allweddol fframweithiau polisi trochi iaith Tokyo? ........ t.82

5.4. Sut mae'r rheiny sy'n llunio polisïau yn gwerthuso llwyddiant rhaglenni trochi wrth gyflawni rhuglder iaith? ........ t.85

5.5. Pa rôl y mae rhanddeiliaid (athrawon, rhieni, a chymunedau) yn ei chwarae wrth lunio polisïau trochi iaith Tokyo a'u cefnogi? ........ t.88

5.6. Sut mae polisïau'n cael eu haddasu i fynd i'r afael â heriau neu fylchau mewn rhaglenni trochi iaith? ........ t.91

5.7. Pa fesurau sy'n bodoli i sicrhau tegwch a hygyrchedd yn addysg drochi iaith Tokyo? ........ t.94

5.8. Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau atebolrwydd wrth weithredu polisïau trochi iaith? ........ t.97

**Rhestr Gyfeirio** ........ t.101

# 目次


**エグゼクティブサマリー**........ 頁.11

**導入**........ 頁.14

1. **日本と東京におけるイマージョン教育：政 策、計画、評価**........ 頁.17

1.1. 国家統治と政策基盤........ 頁.17

1.2. 東京のガバナンス構造と戦略的多様性........ 頁.19

1.3. 東京都教育委員会：組織と戦略的役割........ 頁.20

1.4. 区レベル教育委員会：構造と地域イノベーション........ 頁.23

1.5. 東京のイマージョン教育における評価と監督........ 頁.25

1.6. インターナショナルスクールと私立学校：イマージョン教育がデフォルト........ 頁.27

1.7. イマージョンニーズの社会言語学的要因........ 頁.30

1.8. 結論........ 頁.35

2. **ウェールズにおけるイマージョン教育：政策、計画、検査**........ 頁.38

2.1. ウェールズにおける国家ガバナンスと戦略的基盤........ 頁.38

2.2.ウェールズにおける地方自治体のガバナンスと戦略計画........ 頁.41

2.3. ウェールズにおける個々の学校のガバナンスとイマージョン・リーダーシップ........ 頁.45

2.4. ウェールズにおけるイマージョン教育提供のためのEstyn検査フレームワーク........ 頁.48

2.5. ウェールズにおけるイマージョン教育の社会言語学的推進要因と教育的根拠........ 頁.51

2.6. セクションの結論........ 頁.55

3. **対照的なイマージョン・フレームワーク：ウェールズと東京の比較研究**........ 頁.58

3.1. 国家政策体系と戦略的意図........ 頁.59

3.2. 評価と査察の枠組み........ 頁.60

3.3. 教育的監督とイマージョン教育の質........ 頁.61

3.4. ガバナンスと監督体制........ 頁.63

3.5. 言語評価と専門能力開発........ 頁.64

3.6.結論........ 頁.65

4. **推奨事項**........ 頁.68

R1：地域社会における状況に応じたウェールズ語学習の機会の創出........ 頁.68

R2：若者文化を反映し、状況に応じたリスニングを支援するウェールズ語のデジタルコンテンツへの投資........ 頁.70

R3：現代ウェールズのアイデンティティを反映した文化教育の再構築........ 頁.72

R4：戦略的整合性と効率性の向上のためのクラスターベースのガバナンスモデルの検討........ 頁.73

R5: ウェールズ語の普及を促進するための自発的な機会が生まれた場合、混合メディア連合を奨励する........ 頁.75

5. **主要な研究課題の要約**........ 頁.78

5.1. 日本の学校における言語イマージョン教育を支援する規制および法的枠組みは何か？........ 頁.78

5.2. 日本の国の教育政策は、初等言語イマージョン教育の取り組みをどのように支援しているか？........ 頁.80

5.3. 東京都の言語イマージョン政策枠組みの主な目的は何か？........ 頁.82

5.4. 政策立案者は、イマージョン・プログラムが言語流暢性を達成する上での成功をどのように評価するのか？........ 頁.85

5.5. 東京都の言語イマージョン政策の策定と支援において、関係者（教師、保護者、地域社会）はどのような役割を果たしていますか？........ 頁.88

5.6. 言語イマージョン・プログラムにおける課題やギャップに対処するために、政策はどのように適応されていますか？........ 頁.91

5.7. 東京の言語イマージョン教育における公平性とアクセシビリティを確保するために、どのような措置が講じられていますか？.. 頁.94

5.8. 言語イマージョン政策の実施における説明責任を確保するために、どのような仕組みが整備されていますか？........ 頁.97

**参考文献リスト**........ 頁.101

## Table of Contents


**Executive Summary** p.11
**Introduction** p.14
1. **Immersion Education in Japan and Tokyo: Policy, Planning, and Evaluation** p.17
1.1. National Governance and Policy Foundations p.17
1.2. Tokyo's Governance Structure and Strategic Divergence p.19
1.3. Tokyo Metropolitan Board of Education: Structure and Strategic Role p.20
1.4. Ward-Level Boards of Education: Structure and Local Innovation p.23
1.5. Evaluation and Oversight in Tokyo's Immersion Education Landscape p.25
1.6. International and Private Schools: Immersion by Default p.27
1.7. Sociolinguistic Drivers of Immersion Need p.30
1.8. Section Conclusion p.35
2. **Immersion Education in Wales: Policy, Planning, and Inspection** p.38
2.1. National Governance and Strategic Foundations in Wales p.38
2.2. Local Authority Governance and Strategic Planning in Wales p.41
2.3. Individual School Governance and Immersion Leadership in Wales p.45
2.4. Estyn Inspection Framework for Immersion Provision in Wales p.48
2.5. Sociolinguistic Drivers and Pedagogical Rationale for Immersion in Wales p.51
2.6. Section Conclusion p.55
3. **Contrasting Immersion Frameworks: Wales and Tokyo in Comparative Perspective** p.58
3.1. National Policy Architecture and Strategic Intent p.59
3.2. Evaluation and Inspection Frameworks p.60
3.3. Pedagogical Oversight and Immersion Quality p.61
3.4. Governance and Oversight Structures p.63
3.5. Language Assessment and Professional Development p.64
3.6. Section Conclusion p.65
4. **Recommendations** p.68
R1: Create Opportunities for Situational Welsh in Communities p.68
R2: Invest in Welsh-Language Digital Content That Reflects Youth Culture and Supports Situational Listening p.70
R3: Reframe Cultural Education to Reflect Contemporary Welsh Identity p.72
R4: Explore Cluster-Based Governance Models to Enhance Strategic Alignment and Efficiency p.73
R5: Encourage Mixed-Medium Federations Where Voluntary Opportunities Arise to Support Welsh Language Growth p.75
5. **Summary to Key Research Questions** p.78
5.1. What regulatory and legal frameworks support language immersion in Japanese schools? p.78
5.2. How do national education policies in Japan support primary language immersion initiatives? p.80
5.3. What are the key objectives of Tokyo's language immersion policy frameworks? p.82
5.4. How do policymakers evaluate the success of immersion programmes in achieving language fluency? p.85
5.5. What role do stakeholders (teachers, parents, and communities) play in shaping and supporting Tokyo's language immersion policies? p.88
5.6. How are policies adapted to address challenges or gaps in language immersion programmes? p.91
5.7. What measures exist to ensure equity and accessibility in Tokyo's language immersion education? p.94
5.8. What mechanisms are in place to ensure accountability in the implementation of language immersion policies? p.97
**Reference List** p.101

# Crynodeb Gweithredol

# エグゼクティブサマリー

# Executive Summary

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r fframweithiau polisi, y strwythurau llywodraethu, a'r mecanweithiau gwerthuso sy'n dylanwadu ar addysg trochi iaith gynradd yn Tokyo a Chymru, trwy eu cymharu. Mae'n tynnu ar waith maes a gynhaliwyd yn ystod ymweliad dirprwyaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen â Tokyo ym mis Hydref 2025, a oedd yn cynnwys uwch-swyddogion, arbenigwyr trochi, ac arweinwyr ysgolion. Fe fu'r ddirprwyaeth yn ymgysylltu â swyddogion addysg, yn ymweld â lleoliadau trochi, ac yn archwilio sut y gallai dulliau Tokyo oleuo arfer cyfrwng Cymraeg.

Model llywodraethu dwy-haen sy'n llunio tirwedd drochi Tokyo. Mae Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo (TMBE) yn goruchwylio ysgolion uwchradd ac arloesi strategol, tra bod Byrddau Addysg lefel ward yn rheoli ysgolion elfennol (cynradd) a chanol. Mae'r strwythur hwn yn golygu bod modd sicrhau ymatebolrwydd lleol o fewn system addysg Japan sydd, fel arall, yn ganoledig. Nid yw rhaglenni arddull drochi yn Tokyo yn cael eu gorfodi'n genedlaethol ond maent yn dod i'r amlwg yn lleol mewn ymateb i newid demograffig, globaleiddio, a galw gan y gymuned. Mae'r gwerthuso'n cael ei arwain gan ysgolion ac yn iterus, wedi'i gefnogi gan arfer astudio gwersi, cylchoedd Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu, a phaneli rhanddeiliaid. Mae ysgolion yn asesu cyrhaeddiad academaidd a hyfedredd iaith, ac yn rhoi sylw cynyddol i lais y dysgwr, hunaniaeth ddiwylliannol, ac integreiddio cymunedol.

Mewn cyferbyniad, mae Cymru yn sefydlu addysg drochi o fewn fframwaith statudol, sy'n seiliedig ar hawliau. Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn gorchymyn ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a gweithredir hynny trwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau), categoreiddio ysgolion, a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae awdurdodau

## エグゼクティブサマリー

本報告書は、東京とウェールズにおける初等言語イマージョン教育を形作る政策枠組み、ガバナンス構造、評価メカニズムの比較分析を提供する。本報告書は、2025年10月にトーファエン郡区議会が東京を訪問した際に実施したフィールドワークに基づいている。訪問団は、上級職員、イマージョン専門家、学校長で構成される。代表団は教育関係者と交流し、イマージョン教育の現場を視察し、東京のアプローチがウェールズ語中等教育の実践にどのように役立つかを探った。

東京のイマージョン教育の現状は、二層構造のガバナンスモデルによって形作られている。東京都教育委員会（TMBE）は高等学校と戦略的イノベーションを監督し、区レベルの教育委員会は小中学校を管理している。この構造により、日本の中央集権的な教育システムの中で、地域に即した対応が可能になっている。東京におけるイマージョン型プログラムは国で義務付けられているわけではないが、人口動態の変化、グローバル化、そして地域社会の需要に応じて地域ごとに生まれている。評価は学校主導で反復的に行われ、授業研究、PDCAサイクル、そして利害関係者パネルによって支えられている。学校は学業成績と言語能力の両方を評価し、学習者の声、文化的アイデンティティ、そして地域社会への統合にますます重点を置いています。

対照的に、ウェールズではイマージョン教育を法定の権利に基づく枠組みの中に組み込んでいます。ウェールズ政府の「ウェールズ語2050」戦略は、ウェールズ語教育の提供拡大を義務付けており、これはウェールズ語教育戦略計画（WESP）、学校の分類、そしてウェールズ・カリキュラムを通じて実施されます。地方自治体が戦略計画を主導し、ウェール

## Executive Summary

This report offers a comparative analysis of the policy frameworks, governance structures, and evaluation mechanisms that shape primary language immersion education in Tokyo and Wales. It draws on fieldwork conducted during an October 2025 delegation visit to Tokyo by Torfaen County Borough Council, comprising senior officers, immersion specialists, and school leaders. The delegation engaged with education officials, visited immersion settings, and explored how Tokyo's approaches might inform Welsh-medium practice.

A dual-tiered governance model shapes Tokyo's immersion landscape. The Tokyo Metropolitan Board of Education (TMBE) oversees high schools and strategic innovation, while ward-level Boards of Education manage elementary and junior high schools. This structure enables local responsiveness within Japan's otherwise centralised education system. Immersion-style programmes in Tokyo are not nationally mandated but emerge locally in response to demographic change, globalisation, and community demand. Evaluation is school-led and iterative, supported by lesson study, PDCA cycles, and stakeholder panels. Schools assess both academic achievement and language proficiency, with growing attention to learner voice, cultural identity, and community integration.

In contrast, Wales embeds immersion education within a statutory, rights-based framework. The Welsh Government's *Cymraeg 2050* strategy mandates the expansion of Welsh-medium provision, operationalised through Welsh in Education Strategic Plans (WESPs), school categorisation, and the Curriculum for Wales. Local authorities lead strategic planning,

lleol yn arwain y gwaith cynllunio strategol, gyda chefnogaeth Fforymau Addysg Gymraeg a mecanweithiau craffu ffurfiol. Mae Estyn yn darparu arolygiadau allanol, gan sicrhau cysondeb, tryloywder, ac aliniad â nodau iaith cenedlaethol. Cyflwynir addysg drochi fel hawl gyhoeddus, ac mae tegwch, hygyrchedd, ac atebolrwydd wrth wraidd yr addysg hon.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael ag wyth is-gwestiwn hollbwysig, sy'n archwilio sylfeini cyfreithiol, bwriad strategol, dulliau gwerthuso, rolau rhanddeiliaid, mecanweithiau addasu, mesur tegwch, a strwythurau atebolrwydd. Mae'n tynnu sylw at gapasiti Tokyo ar gyfer arloesi'n lleol, ymatebolrwydd diwylliannol, a dysgu proffesiynol, ac yn nodi hefyd yr amrywiaeth o ran mynediad a deilliannau. Mae dull strwythuredig Cymru yn sicrhau cydlyniant, cynnydd parhaus, a thegwch ieithyddol, er bod heriau o hyd o ran cysondeb rhanbarthol, capasiti'r gweithlu, a throsglwyddiad iaith yn y gymuned.

Mae'r ddwy system yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr. Mae strategaethau cyd-werthuso ac integreiddio diwylliannol Tokyo yn darparu modelau ar gyfer lleoliadau trochi'r Gymraeg, yn enwedig mewn cyd-destunau trefol ac amlieithog. Ar y llaw arall, gallai defnydd systematig Cymru o gynllunio statudol, arolygu dwyieithog, a meincnodau cenedlaethol wella cysondeb ac aliniad strategol yn Tokyo. Wrth integreiddio cryfderau'r ddau ddull, cynigir llwybr tuag at systemau addysg dwyieithog mwy cydnerth a chyfartal, o ansawdd uwch.

ズ教育フォーラムや正式な審査メカニズムの支援を受けています。Estynは外部監査を行い、一貫性、透明性、そして国語目標との整合性を確保しています。イマージョン教育は、公平性、アクセシビリティ、そして説明責任を中核とした、国民の権利として提供されています。

本報告書は、8つの重要な小項目を取り上げ、法的基盤、戦略的意図、評価方法、利害関係者の役割、適応メカニズム、公平性確保のための措置、説明責任体制を検証しています。東京の地域イノベーション、文化的対応力、専門的学習能力を強調する一方で、アクセスと成果におけるばらつきにも言及しています。ウェールズの構造化されたアプローチは、一貫性、持続的な進歩、言語的公平性を確保していますが、地域的な一貫性、労働力の能力、そしてコミュニティにおける言語移転には依然として課題が残っています。

両システムから貴重な知見が得られます。東京の協働的な評価と文化統合戦略は、特に都市部や多言語環境におけるウェールズ語イマージョン教育のモデルとなります。一方、ウェールズが法定計画、バイリンガル査察、そして国家ベンチマークを体系的に活用することで、東京における一貫性と戦略的整合性を高めることができます。両アプローチの長所を統合することで、より回復力があり、公平で、質の高いバイリンガル教育システムへの道が開かれます。

supported by Welsh Education Forums and formal scrutiny mechanisms. Estyn provides external inspection, ensuring consistency, transparency, and alignment with national language goals. Immersion is delivered as a public entitlement, with equity, accessibility, and accountability at its core.

The report addresses eight critical sub-questions, examining legal foundations, strategic intent, evaluation methods, stakeholder roles, adaptation mechanisms, equity measures, and accountability structures. It highlights Tokyo's capacity for local innovation, cultural responsiveness, and professional learning, while also noting variability in access and outcomes. Wales's structured approach ensures coherence, sustained progress, and linguistic equity, though challenges remain in regional consistency, workforce capacity, and community language transfer.

Both systems offer valuable insights. Tokyo's collaborative evaluation and cultural integration strategies provide models for Welsh immersion settings, particularly in urban and multilingual contexts. Conversely, Wales's systematic use of statutory planning, bilingual inspection, and national benchmarks could enhance consistency and strategic alignment in Tokyo. Integrating the strengths of both approaches offers a pathway toward more resilient, equitable, and high-quality bilingual education systems.

# Cyflwyniad

# 導入

# Introduction

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o addysg drochi iaith gynradd yn Tokyo a Chymru, trwy gymharu, gan archwilio sut mae strwythurau llywodraethu, fframweithiau polisi, a mecanweithiau gwerthuso yn dylanwadu ar ddyluniad a chyflwyniad dysgu dwyieithog. Mae'n tynnu ar waith maes a gynhaliwyd yn ystod ymweliad dirprwyaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen â Tokyo ym mis Hydref 2025, a oedd yn cynnwys uwch-swyddogion, arbenigwyr trochi, ac arweinwyr ysgolion. Fe fu'r ddirprwyaeth yn ymgysylltu â swyddogion addysg, yn ymweld â lleoliadau trochi, ac yn archwilio sut y gallai dulliau Tokyo oleuo arfer a datblygiad polisi ar gyfer y Gymraeg.

Mae gan yr astudiaeth gyd-destun ehangach o adfywio iaith a globaleiddio. Yng Nghymru, mae addysg drochi yn gyfrwng statudol ar gyfer cyflawni targedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac mae gwaith cynllunio cenedlaethol, goruchwyliaeth awdurdodau lleol, ac arolygu allanol yn sicrhau cydlyniant strategol. Yn Tokyo, mae trochi'n dod i'r amlwg ar lefel leol, dan ddylanwad pwysau demograffig, dyheadau rhyngwladol, a llywodraethu haenog. Er nad oes gan Japan strategaeth drochi genedlaethol, mae system ddwy-haen Tokyo, sy'n cynnwys Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo a Byrddau lefel ward, yn ei galluogi i arloesi yn y ddarpariaeth ddwyieithog, yn enwedig mewn ymateb i integreiddio mudwyr a chymhwysedd byd-eang.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael ag wyth is-gwestiwn craidd, sy'n archwilio sylfeini cyfreithiol, bwriad strategol, dulliau gwerthuso, rolau rhanddeiliaid, mecanweithiau addasu, mesur tegwch, a strwythurau atebolrwydd. Mae'n dadansoddi sut mae trochi yn cael ei gysyniadu, ei weithredu, a'i werthuso yn y ddau gyd-destun, gan amlygu'r ffordd y mae uchelgais polisi ac arfer addysgol mewn bywyd go iawn, yn rhyngweithio.

## 導入

本報告書は、東京とウェールズにおける初等言語イマージョン教育の比較分析を提示し、ガバナンス構造、政策枠組み、そして評価メカニズムが、バイリンガル学習の設計と実施にどのように影響を与えているかを検証する。本報告書は、2025年10月にトルファエン郡区議会が東京を訪問した際に実施したフィールドワークに基づいている。訪問団は、上級職員、イマージョン専門家、そして学校長で構成される。代表団は教育関係者と交流し、イマージョン教育の現場を視察し、東京のアプローチがウェールズ語中等教育の実践と政策策定にどのように役立つかを探った。

本研究は、言語の復興とグローバル化というより広い文脈の中に位置づけられている。ウェールズでは、イマージョン教育はウェールズ政府のウェールズ語2050目標達成のための法定手段であり、国家計画、地方自治体の監督、そして外部監査によって戦略的一貫性が確保されている。東京では、イマージョン教育は地域ごとに発展し、人口動態の圧力、国際的な展望、そして多層的なガバナンスによって形作られている。日本には国家レベルのイマージョン戦略が存在しないものの、東京都教育委員会と区レベルの教育委員会からなる二層構造のシステムは、特に移民の統合とグローバル人材育成への対応において、バイリンガル教育におけるイノベーションを可能にしています。

本報告書は、8つの主要なサブクエスチョンを取り上げ、法的根拠、戦略的意図、評価方法、利害関係者の役割、適応メカニズム、公平性に関する尺度、説明責任の構造を探ります。イマージョン教育が両方の文脈においてどのように概念化、実施、評価されているかを分析し、政策目標と実践された教育実践の相互作用に焦点を当てています。

## Introduction

This report presents a comparative analysis of primary language immersion education in Tokyo and Wales, examining how governance structures, policy frameworks, and evaluation mechanisms shape the design and delivery of bilingual learning. It draws on fieldwork conducted during an October 2025 delegation visit to Tokyo by Torfaen County Borough Council, comprising senior officers, immersion specialists, and school leaders. The delegation engaged with education officials, visited immersion settings, and explored how Tokyo's approaches might inform Welsh-medium practice and policy development.

The study is situated within a broader context of linguistic revitalisation and globalisation. In Wales, immersion education is a statutory vehicle for achieving the Welsh Government's Cymraeg 2050 targets, with national planning, local authority oversight, and external inspection ensuring strategic coherence. In Tokyo, immersion emerges locally, shaped by demographic pressures, international aspirations, and layered governance. While Japan lacks a national immersion strategy, Tokyo's dual-tiered system comprising the Tokyo Metropolitan Board of Education and ward-level Boards enables innovation in bilingual provision, particularly in response to migrant integration and global competence.

This report addresses eight core sub-questions, exploring legal foundations, strategic intent, evaluation methods, stakeholder roles, adaptation mechanisms, equity measures, and accountability structures. It analyses how immersion is conceptualised, implemented, and evaluated in both contexts, highlighting the interplay between policy ambition and lived educational practice.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy brif adran. Mae Adran Un yn archwilio addysg drochi yn Tokyo, gan ganolbwyntio ar sylfeini polisi, strwythurau llywodraethu, mecanweithiau gwerthuso, a gyrwyr sosioieithyddol. Mae'n tynnu ar fewnwelediadau o waith maes ac ymweliadau â sefydliadau, i ddangos sut mae trochi yn cael ei gysyniadu a'i gyflwyno ar draws lleoliadau metropolitan, lefel ward, a phreifat. Mae Adran Dau yn dadansoddi addysg drochi yng Nghymru, gan archwilio strategaeth genedlaethol, cynllunio statudol, llywodraethu awdurdodau lleol, a fframweithiau arolygu. Mae'n tynnu sylw at rôl Cymraeg 2050, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau), ac Estyn a'u dylanwad ar system drochi gydlynol sy'n seiliedig ar hawliau. Mae adrannau pellach yn cynnig dadansoddiad trwy gymharu, a set o argymhellion strategol, gan arwain at adran olaf sy'n cyflwyno canfyddiadau mewn ymateb uniongyrchol i gwestiynau ymchwil allweddol y ddirprwyaeth.

本報告書は2つの主要なセクションに分かれています。第1セクションでは、東京におけるイマージョン教育を検証し、政策基盤、ガバナンス構造、評価メカニズム、そして社会言語学的要因に焦点を当てます。フィールドワークの知見と施設訪問に基づき、都市部、区レベル、そして私立の各教育機関において、イマージョン教育がどのように概念化され、提供されているかを明らかにします。第2セクションでは、ウェールズにおけるイマージョン教育を分析し、国家戦略、法定計画、地方自治体のガバナンス、そして査察の枠組みを探ります。本稿では、ウェールズ語2050、ウェールズ語教育戦略計画（WESP）、そしてEstynが、一貫性があり権利に基づくイマージョン教育システムの構築において果たした役割に焦点を当てています。さらに、比較分析と一連の戦略的提言を提示し、最終セクションでは、代表団の主要な研究課題に直接対応する調査結果を提示しています。

The report is divided into two main sections. Section One examines immersion education in Tokyo, focusing on policy foundations, governance structures, evaluation mechanisms, and sociolinguistic drivers. It draws on fieldwork insights and institutional visits to illustrate how immersion is conceptualised and delivered across metropolitan, ward-level, and private settings. Section Two analyses immersion education in Wales, exploring national strategy, statutory planning, local authority governance, and inspection frameworks. It highlights the role of Cymraeg 2050, Welsh in Education Strategic Plans (WESPs), and Estyn in shaping a coherent and rights-based immersion system. Further sections offer a comparative analysis and a set of strategic recommendations, culminating in a final section that presents findings in direct response to the delegation's key research questions.

# Addysg Drochi yn Japan a Tokyo: Polisi, Cynllunio a Gwerthuso

# 日本と東京におけるイマージョン教育：政策、計画、評価

# Immersion Education in Japan and Tokyo: Policy, Planning, and Evaluation

# 1. Addysg Drochi yn Japan a Tokyo: Polisi, Cynllunio a Gwerthuso

### 1.1. Seiliau Llywodraethu a Pholisi Cenedlaethol

Llywodraethir system addysg Japan gan fframwaith canoledig, a MEXT (*Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology*) yw'r prif awdurdod.

Mae MEXT yn gosod canllawiau sy'n rhwymo ar gyfer y cwricwlwm trwy'r Cwrs Astudio, yn rheoleiddio ardystiad athrawon, ac yn goruchwylio asesiadau cenedlaethol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau cysondeb ar draws taleithiau ond yn cyfyngu ar ymreolaeth ac arloesi ar lefel leol.

Mae polisi addysg iaith yn Japan wedi'i rannu'n ddwy ran yn ôl proffil y dysgwr:

a) Saesneg ar gyfer dysgwyr brodorol Japan: wedi'i gyflwyno'n ffurfiol yng Ngradd 5 (Blwyddyn 6 y DU), gyda gweithgareddau siarad a gwrando yn dechrau yng Ngradd 3 (Blwyddyn 4 y DU). Mae diwygiad y Cwrs Astudio yn 2020 yn pwysleisio cymhwysedd wrth gyfathrebu a dealltwriaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, mae arfer yn yr ystafell ddosbarth yn dal i ganolbwyntio'n drwm ar ramadeg ac arholiadau, gyda chyfarwyddyd cyfyngedig yn yr arddull drochi.

Mae mewnwelediadau o waith maes yn Tokyo yn tanlinellu dylanwad parhaus etifeddiaeth cyfieithu-gramadeg Japan. Disgrifiodd yr Athro Carol Inguai Dixon (Prifysgol Tsukuba) ddiwylliant cyffredinol yr ystafell ddosbarth fel un o "gywirdeb sy'n drwm o ran gramadeg," lle mae manylder ieithyddol yn cael blaenoriaeth dros gymhwysedd wrth gyfathrebu. Adleisiodd

# 1. 日本と東京におけるイマージョン教育：政策、計画、評価

### 1.1. 国家統治と政策基盤

日本の教育制度は、文部科学省（MEXT）を主たる権限とする中央集権的な枠組みによって運営されています。

文部科学省は、学習指導要領を通じて拘束力のある学習指導要領を策定し、教員免許状を規制し、全国的な学力評価（Evaluation of the National Assessment）を監督しています。この構造は、都道府県間の一貫性を確保する一方で、地方の自主性と革新性を制限しています。

日本の言語教育政策は、学習者のプロファイルによって二分されています。

a) 日本語を母語とする学習者のための英語：5年生（英国ではYear 6）から正式に導入され、3年生（英国ではYear 4）からスピーキングとリスニングの活動が開始されます。2020年の学習指導要領改訂では、コミュニケーション能力と文化理解が重視されています。しかし、教室での実践は依然として文法重視で試験重視であり、イマージョン型の指導は限られています。

東京でのフィールドワークの知見は、日本の文法と翻訳の伝統が今もなお影響を与えていることを浮き彫りにしています。キャロル・イングアイ・ディクソン教授（筑波大学）は、現在の教室文化を「文法偏重の正確さ」と表現し、コミュニケーション能力よりも言語の正確さが優先されていると指摘しました。ブリティッシュ・カウンシルの代表者もこれに同調

# 1. Immersion Education in Japan and Tokyo: Policy, Planning, and Evaluation

### 1.1. National Governance and Policy Foundations

Japan's education system is governed by a centralised framework, with the Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology (MEXT) serving as the principal authority.

MEXT sets binding curriculum guidelines through the Course of Study, regulates teacher certification, and oversees national assessments. This structure ensures consistency across prefectures but limits local autonomy and innovation.

Language education policy in Japan is bifurcated by learner profile:

a) English for native Japanese learners: Introduced formally in Grade 5 (UK Year 6), with speaking and listening activities beginning in Grade 3 (UK Year 4). The 2020 revision of the Course of Study emphasises communicative competence and cultural understanding. However, classroom practice remains grammar-heavy and exam-oriented, with limited immersion-style instruction.

Fieldwork insights from Tokyo underscore the enduring influence of Japan's grammar-translation legacy. Professor Carol Inguai Dixon (University of Tsukuba) described the prevailing classroom culture as one of "grammar-heavy correctness," where linguistic precision is prioritised over communicative competence. Representatives from the British Council echoed this, noting that

cynrychiolwyr British Council hyn, gan nodi mai dim ond yn 2020 y daeth Saesneg i fod yn rhan ffurfiol o'r cwricwlwm cynradd, a bod y ddarpariaeth flaenorol wedi'i chyfyngu i 35 awr y flwyddyn, heb fawr o gydlyniant o ran addysgeg. Er gwaethaf diwygiadau polisi, mae cyfarwyddyd sy'n canolbwyntio ar arholiadau yn dominyddu o hyd, wedi'i atgyfnerthu gan natur risg uchel arholiadau mynediad i brifysgolion. Mae llwyddiant yn y Saesneg yn dal i fod gyfystyr â pherfformiad mewn prawf, yn hytrach na rhuglder yn y byd go iawn, ac mae'r datgysylltiad hwn yn parhau i ddylanwadu ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth a chymhelliant dysgwyr.

し、英語が初等教育カリキュラムに正式に組み込まれたのは2020年になってからであり、それ以前の提供時間は年間35時間に制限され、教育的一貫性が欠如していたと指摘しました。政策改革にもかかわらず、試験重視の教育は依然として主流であり、大学入試のハイステークス性によってさらに強化されています。英語での成功は、実社会での流暢さではなく、テストの成績と同義であり、この乖離が教室での実践と学習者のモチベーションの両方に影響を与え続けています。

English only became a formal part of the primary curriculum in 2020, with prior provision limited to 35 hours annually and lacking pedagogical coherence. Despite policy reforms, the dominance of exam-oriented instruction persists, reinforced by the high-stakes nature of university entrance examinations. Success in English remains synonymous with test performance, rather than real-world fluency, a disconnect that continues to shape both classroom practice and learner motivation.

b) Japaneeg ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn frodorol: a lywodraethir gan Ddeddf Hyrwyddo Addysg Iaith Japaneeg (2019), sy'n cydnabod cyfrifoldeb y llywodraeth i ddarparu cyfarwyddyd iaith i breswylwyr o dramor. Mae'r Polisi Sylfaenol (2020) yn amlinellu cymorth i blant cyn-ysgol, plant ysgol, a dysgwyr sy'n oedolion, gan annog bwrdeistrefi i ddatblygu rhaglenni cynhwysol. Fodd bynnag, nid oes safon genedlaethol ar gyfer cyfarwyddyd Japaneeg yn yr arddull drochi, ac mae gweithredu cyfarwyddyd o'r fath yn dibynnu ar ddisgresiwn lleol ac yn amrywio'n eang.

b)　非母語学習者のための日本語：日本語教育の推進に関する法律（2019年）の管轄であり、外国人住民への言語教育の提供は政府の責任であるとされています。基本方針（2020年）では、就学前児童、学童、成人学習者への支援を概説し、自治体によるインクルーシブなプログラムの開発を奨励しています。しかし、イマージョン型の日本語教育に関する全国基準は存在せず、実施は地方自治体の裁量に委ねられており、実施内容は大きく異なります。

b) Japanese for non-native learners: Governed by the Act on Promotion of Japanese Language Education (2019), which recognises the government's responsibility to provide language instruction to foreign residents. The Basic Policy (2020) outlines support for preschoolers, schoolchildren, and adult learners, encouraging municipalities to develop inclusive programmes. However, there is no national standard for immersion-style Japanese instruction, and implementation is left to local discretion and varies widely.

Nid oes gan Japan strategaeth addysg drochi genedlaethol. Nid yw rhaglenni arddull drochi, lle mae pynciau'n cael eu haddysgu trwy ail iaith, yn orfodol, a phrin y byddant yn ymddangos mewn dogfennau cynllunio cenedlaethol. Yn hytrach, maent yn dod i'r amlwg yn lleol, yn aml mewn ymateb i bwysau demograffig neu fenter y sefydliad.

日本には国家的なイマージョン教育戦略がありません。第二言語で教科を教えるイマージョン型のプログラムは義務化されておらず、国の計画文書にもほとんど記載されていません。むしろ、人口動態の変化や制度的な取り組みに応じて、地方自治体で導入されています。

Japan does not have a national immersion education strategy. Immersion-style programmes, where subjects are taught through a second language, are not mandated and rarely appear in national planning documents. Instead, they emerge locally, often in response to demographic pressures or institutional initiative.

### 1.2. Strwythur Llywodraethu a Gwahaniaethau Strategol Tokyo

Mae llywodraethu addysg yn Tokyo yn wahanol iawn i fodel canoledig Japan, ac yn cynnig strwythur â dwy haen sy'n golygu bod modd ymateb ac arloesi ar lefel leol. Mae'r hyblygrwydd hwn wedi galluogi Tokyo i dreialu rhaglenni arddull drochi sy'n mynd i'r afael â globaleiddio a'r newid demograffig.

Mae system Tokyo yn cynnwys Llywodraethu â Dwy Haen:

a) Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo (TMBE): sy'n gweithredu fel awdurdod ar lefel y dalaith ac ar lefel y ddinas. Mae'n goruchwylio pob ysgol uwchradd gyhoeddus a sefydliad addysg arbennig ar draws y metropolis, gan gynnwys y 23 ward arbennig, bwrdeistrefi Gorllewin Tokyo, ac ynysoedd a weinyddir gan Tokyo. Mae gan TMBE yr awdurdod i ddatblygu a gweithredu polisïau, gan ganiatáu hyblygrwydd strategol mewn meysydd fel dysgu digidol, addysg ddwyieithog, a diwygio'r cwricwlwm.

b) Byrddau Addysg ar Lefel Ward: Mae pob un o 23 ward arbennig Tokyo yn rheoli ysgolion elfennol (cynradd) a chanol. Mae gan y byrddau gyfansoddiad cyfreithiol o dan Ddeddf Gweinyddu Addysg Leol (1956) ac maent yn gweithredu fel cyrff gweinyddol symreolaethol. Maent yn gyfrifol am staffio, cyllidebu, cyflwyno'r cwricwlwm ac arloesi ar lefel yr ysgol.

### 1.2. 東京のガバナンス構造と戦略的多様性

東京の教育ガバナンスは、日本の中央集権型モデルとは大きく異なり、地方レベルでの対応力とイノベーションを可能にする二層構造を採用しています。この柔軟性により、東京はグローバル化と人口動態の変化の両方に対応するイマージョン型のプログラムを試行することが可能になっています。

東京のシステムは二層構造で構成されています。

a) 東京都教育委員会（TMBE）：都道府県レベルと市レベルの両方の機関として機能します。23特別区、東京西部の市町村、および東京都直轄の島嶼を含む、都内のすべての公立高等学校および特別支援教育機関を監督します。TMBEは政策立案と実施の両方の権限を有し、デジタル学習、バイリンガル教育、カリキュラム改革などの分野における戦略的機動性を実現します。

b) 区レベル教育委員会：東京の23特別区はそれぞれ、小学校と中学校を管理しています。これらの委員会は、地方教育行政法（1956年）に基づいて法的に設立され、自治的な行政機関として運営されています。職員配置、予算編成、カリキュラムの実施、学校レベルの改革などについて責任を負っています。

### 1.2. Tokyo's Governance Structure and Strategic Divergence

Tokyo's education governance diverges significantly from Japan's centralised model, offering a dual-tiered structure that enables local responsiveness and innovation. This flexibility has allowed Tokyo to pilot immersion-style programmes that address both globalisation and demographic change.

Tokyo's system comprises of Dual-Tiered Governance:

a) Tokyo Metropolitan Board of Education (TMBE): Functions as both a prefectural and city-level authority. It oversees all public high schools and special education institutions across the metropolis, including the 23 special wards, Western Tokyo municipalities, and Tokyo-administered islands. The TMBE holds both policy development and implementation authority, enabling strategic agility in areas such as digital learning, bilingual education, and curriculum reform.

b) Ward-Level Boards of Education: Each of Tokyo's 23 special wards manages elementary and junior high schools. These boards are legally constituted under the Local Education Administration Law (1956) and operate as autonomous administrative bodies. They are responsible for staffing, budgeting, curriculum delivery, and school-level innovation.

### 1.3. Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo: Strwythur a Rôl Strategol

Mae Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo (TMBE) yn cynnwys:

| Rôl | Disgrifiad |
|---|---|
| Prif Arolygydd Addysg | Pennaeth gweithredol; yn rheoli Adran Addysg Metropolitan Tokyo ac yn gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd. |
| Aelodau'r Bwrdd (fel arfer 5) | Cânt eu penodi gan Lywodraethwr Tokyo a'u cymeradwyo gan y Cynulliad Metropolitan. Mae'r aelodau'n cynnwys arbenigwyr ar addysg, y gyfraith, gweinyddiaeth gyhoeddus ac arweinyddiaeth gymunedol. |
| Biwro Gweinyddol | Gweision sifil sy'n rheoli datblygiad polisïau, gweithrediadau ysgolion, cyllidebu a chydlynu ac mae byrddau ar lefel ward. |
| Pwyllgorau Arbennig | Ffocws ar ddiwygio'r cwricwlwm, cynhwysiant, trawsnewid digidol a rhyngwladoli. |

Mae aelodau'r bwrdd yn gwasanaethu am dymhorau o bedair blynedd. Mae TMBE yn atebol yn wleidyddol i Gynulliad Metropolitan Tokyo ond mae'n gweithredu'n annibynnol mewn materion addysgol.

*Swyddogaethau Strategol:*

- Mae'n rheoli dros 200 o ysgolion uwchradd metropolitan, gan gynnwys sefydliadau technegol a masnachol, a sefydliadau â ffocws rhyngwladol.

### 1.3. 東京都教育委員会：組織と戦略的役割

東京都教育委員会は以下の組織で構成されています。

| 役割 | 概要 |
|---|---|
| 教育長 | 執行長。東京都教育委員会の業務を統括し、委員会の決定事項を実行します。 |
| 委員会メンバー（通常5名） | 東京都知事によって任命され、都議会の承認を受けます。委員には、教育、法律、行政、地域社会のリーダーシップに関する専門家が含まれます。 |
| 行政局 | 政策立案、学校運営、予算編成、区レベルの委員会との調整を行う公務員です。 |
| 特別委員会 | カリキュラム改革、インクルーシブ教育、デジタルトランスフォーメーション、国際化に重点を置いています。 |

理事の任期は4年です。東京都教育委員会は東京都議会に対し政治的責任を負いますが、教育に関する運営上の独立性は維持されています。

*戦略的機能：*

- 技術系、商業系、国際系を含む200校以上の都立高校を管理しています。

### 1.3. Tokyo Metropolitan Board of Education: Structure and Strategic Role

The TMBE is composed of:

| Role | Description |
|---|---|
| Superintendent of Education | Executive head; manages the Tokyo Metropolitan Education Department and implements board decisions. |
| Board Members (typically 5) | Appointed by the Governor of Tokyo and approved by the Metropolitan Assembly. Members include experts in education, law, public administration, and community leadership. |
| Administrative Bureau | Civil servants who manage policy development, school operations, budgeting, and coordination with ward-level boards. |
| Special Committees | Focused on curriculum reform, inclusion, digital transformation, and internationalisation. |

Board members serve four-year terms. The TMBE is politically accountable to the Tokyo Metropolitan Assembly but retains operational independence in educational matters.

*Strategic Functions:*

- Manages over 200 metropolitan high schools, including technical, commercial, and international-focused institutions.

- Mae'n datblygu ac yn gweithredu polisi addysg ledled Tokyo, gan gynnwys addasu'r cwricwlwm, hyfforddi athrawon, a diogelwch ysgolion.
- Mae'n goruchwylio cyllid addysgol a mentrau strategol.
- Mae'n treialu arloesi mewn addysg ddwyieithog, trawsnewid digidol, ac amgylcheddau dysgu cynhwysol.
- Mae'n cydlynu â Byrddau Addysg lefel ward ar gyfer pontio o ysgol ganol i ysgol uwchradd a llwybrau addysg arbennig.

*Arwain Arloesi:*

Mae TMBE yn arwain ymdrechion trochi a rhyngwladoli Tokyo:

- Tokyo Global Gateway: canolfan profiad flaenllaw sy'n cynnig amgylcheddau trochi yn y Saesneg i fyfyrwyr ysgolion cyhoeddus.
- Ehangu Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith(CLIL): yn cefnogi Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith mewn ysgolion uwchradd metropolitan.
- Ysgolion Uwchradd Rhyngwladol: mae sefydliadau fel Ysgol Ryngwladol Tokyo yn cynnig ffrydiau dwyieithog a chwricwla sy'n cyd-fynd â'r Fagloriaeth Ryngwladol (IB).
- Datblygu Athrawon: mae'n ariannu dysgu proffesiynol mewn addysgeg drochi a chymhwysedd rhyngddiwylliannol.

- カリキュラムの適応、教員研修、学校安全など、都内全域の教育政策を策定・実施しています。
- 教育財政と戦略的取り組みを監督しています。
- バイリンガル教育、デジタルトランスフォーメーション、インクルーシブな学習環境におけるイノベーションを試行しています。
- 中学校から高校への移行および特別支援教育の進路について、区教育委員会と連携しています。

*イノベーションリーダーシップ：*

TMBEは、東京のイマージョン教育と国際化の取り組みを主導しています。

- 東京グローバルゲートウェイ：公立学校の生徒にイマーシブな英語環境を提供する、旗艦的な体験型センター。
- CLIL（コンテンツ・ランゲージ・インテグレーション）の拡大：都立高校におけるコンテンツ・ランゲージ・インテグレーション学習（CLA）を支援します。
- インターナショナルハイスクール：東京インターナショナルスクールなどの教育機関は、バイリンガルコースとIB準拠のカリキュラムを提供しています。
- 教員育成：イマージョン教育法と異文化理解能力に関する専門的学習に資金を提供します。

- Develops and implements education policy across Tokyo, including curriculum adaptation, teacher training, and school safety.
- Oversees educational finance and strategic initiatives.
- Pilots' innovation in bilingual education, digital transformation, and inclusive learning environments.
- Coordinates with ward-level Boards of Education on transitions from junior high to high school and special education pathways.

*Innovation Leadership:*

The TMBE leads Tokyo's immersion and internationalisation efforts:

- Tokyo Global Gateway: A flagship experiential centre offering immersive English environments for public school students.
- CLIL Expansion: Supports Content and Language Integrated Learning in metropolitan high schools.
- International High Schools: Institutions like Tokyo International School offer bilingual streams and IB-aligned curricula.
- Teacher Development: Funds professional learning in immersion pedagogy and intercultural competence.

Datgelodd mewnwelediadau o waith maes yn ystod ein hymweliad ag Adran Hyfforddi Athrawon Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo (TMBE) raddfa a strwythur gweithlu addysg gyhoeddus Japan, gyda dros 65,000 o athrawon yn cael eu cyflogi ar draws ysgolion y wladwriaeth yn Tokyo. Mae'r hyfforddiant wedi'i sgriptio'n helaeth: mae addysgwyr yn cael eu haddysgu i gyflwyno cwestiynau ac atebion penodol wedi'u halinio â deunyddiau a ddosberthir yn ganolog, gan gyfyngu ar ymreolaeth yr addysgeg a dysgu sy'n seiliedig ar ymholiad. Mae'r model hwn yn sicrhau cysondeb ond yn mygu'r math o ymgysylltiad allweddol sy'n cael ei werthfawrogi fwyfwy gan deuluoedd â meddylfryd byd-eang. Mae cadw athrawon yn bryder sy'n dod i'r amlwg: yn 2023, gadawodd 5% o athrawon newydd-eu-cyflogi y proffesiwn o fewn eu blwyddyn gyntaf, gan nodi blinder meddyliol, iselder, a chyfrifoldebau gofalu fel rhesymau. Mewn ymateb, mae TMBE wedi symud o hyfforddiant sy'n drwm o ran darlithoedd i fformatau ar-lein ac ar-alw, a bellach mae'n ofynnol i'r athrawon gwblhau cwota gofynnol o ddatblygiad proffesiynol a orchymynnir er mwyn cadw'u trwydded. Mae gwaith monitro perfformiad yn dal i gael ei yrru gan ganlyniadau, a sgoriau profion myfyrwyr yw'r prif ddangosydd ar gyfer effeithiolrwydd athrawon; system sy'n atgyfnerthu pwyslais diwylliannol ehangach Japan ar drefn, cydweithio, a chyflawniad mesuradwy.

東京都教育委員会（TMBE）教員研修課への訪問によるフィールドワークの知見から、日本の公教育労働力の規模と構造が明らかになりました。都立学校には6万5000人以上の教員が雇用されています。研修は高度に定型化されており、教員は中央配布された教材に沿った決められた質問と回答を行うように指導されるため、教育的自主性と探究型学習が制限されています。このモデルは一貫性を保証しますが、グローバル志向の家庭でますます重視されている批判的な関与を阻害しています。定着率が新たな懸念事項となっています。2023年には、新規採用教員の5%が精神的疲労、うつ病、介護の責任を理由に1年以内に離職しました。これに対応して、TMBEは講義中心の研修からオンラインおよびオンデマンド形式に移行し、教員免許を維持するために、認可された専門能力開発の最低限の受講を義務付けました。パフォーマンスのモニタリングは依然として成果重視であり、生徒のテストの点数が教師の有効性を示す主な指標として機能している。これは秩序、協力、測定可能な成果を重視する日本の幅広い文化的傾向を強化するシステムである。

Fieldwork insights from our visit to the Teacher Training Division of the Tokyo Metropolitan Board of Education (TMBE) revealed the scale and structure of Japan's public education workforce, with over 65,000 teachers employed across Tokyo's state schools. Training is highly scripted: educators are taught to deliver set questions and answers aligned with centrally distributed materials, limiting pedagogical autonomy and inquiry-based learning. This model ensures consistency but stifles the kind of critical engagement increasingly valued by globally minded families. Retention is an emerging concern: in 2023, 5% of newly hired teachers left the profession within their first year, citing mental exhaustion, depression, and caregiving responsibilities. In response, the TMBE has shifted from lecture-heavy training to online and on-demand formats, with teachers now required to complete a minimum quota of sanctioned professional development to maintain licensure. Performance monitoring remains outcome-driven, with student test scores serving as the primary indicator of teacher effectiveness, a system that reinforces Japan's broader cultural emphasis on order, collaboration, and measurable achievement.

## 1.4. Byrddau Addysg Lefel Ward: Strwythur ac Arloesi Lleol

Mae gan bob Bwrdd Addysg ar lefel ward:

| Rôl | Disgrifiad |
|---|---|
| Prif Arolygydd | Gweinyddwr proffesiynol, sy'n aml yn gyn-bennaeth, ac sy'n gyfrifol am weithredu polisïau'r Bwrdd. |
| Aelodau'r Bwrdd (fel arfer 4) | Wedi'u penodi gan faer y ward a'u cymeradwyo gan y cynulliad lleol. Gall aelodau gynnwys addysgwyr, arbenigwyr cyfreithiol, academyddion, neu arweinwyr cymunedol. |
| Staff Gweinyddol | Gweision sifil sy'n rheoli adnoddau dynol, cyllid, a chydlyniad ysgolion. |
| Paneli Cynghori (dewisol) | Arbenigwyr allanol neu gynrychiolwyr cymunedol sy'n cynghori ar y cwricwlwm, cynhwysiant, neu gymorth iaith. |

Mae byrddau'n atebol yn wleidyddol i gynulliad y ward ond maent yn gweithredu'n annibynnol mewn materion addysgol. Maent yn cynnal hunanwerthusiadau blynyddol o berfformiad ysgolion a gallant gyhoeddi adroddiadau neu gynnal fforymau cymunedol, er bod mecanweithiau craffu cyhoeddus yn dal i fod yn gyfyngedig o gymharu â systemau fel Cymru.

*Enghreifftiau o Arloesi ar Lefel Ward yn y Byd Go Iawn*

- Ward Setagaya: mae'n cefnogi addysg amlddiwylliannol ac yn cydweithio ag ysgolion rhyngwladol fel Seisen a'r Santes Fair i hyrwyddo dwyieithrwydd ac integreiddio diwylliannol.

## 1.4. 区レベル教育委員会：構造と地域イノベーション

各区レベルの教育委員会には以下の組織が含まれます。

| 役割 | 説明 |
|---|---|
| 監督者 | 専門の管理者（多くの場合、元校長）が、理事会の方針を執行する責任を負う。 |
| 理事会メンバー（通常4名） | 区長によって任命され、地方議会によって承認される。メンバーには、教育者、法律専門家、学者、地域社会のリーダーなどが含まれる場合がある。 |
| 管理スタッフ | 人事、財務、学校運営を管理する公務員。 |
| 諮問委員会（任意） | カリキュラム、インクルーシブ教育、言語支援について助言を行う外部専門家または地域社会の代表者。 |

教育委員会は、政治的には区議会に責任を負いますが、教育に関する事項については独立して運営されます。委員会は毎年、学校の成果に関する自己評価を実施し、報告書の公表や地域フォーラムの開催を行う場合がありますが、ウェールズなどの制度と比較すると、公的な監視メカニズムは依然として限定的です。

*区レベルのイノベーションの実例*

- 世田谷区：多文化教育を支援し、清泉女子大学やセントメアリーズ校などのインターナショナルスクールと連携し、バイリンガル教育と文化融合を推進しています。
- 港区：公立学校でバイリンガル支援を提供し、移民の子どもたちのための日本語イマージョン・プログラムに

## 1.4. Ward-Level Boards of Education: Structure and Local Innovation

Each ward-level Board of Education includes:

| Role | Description |
|---|---|
| Superintendent | Professional administrator, often a former principal, responsible for executing board policy. |
| Board Members (usually 4) | Appointed by the ward mayor and approved by the local assembly. Members may include educators, legal experts, academics, or community leaders. |
| Administrative Staff | Civil servants managing HR, finance, and school coordination. |
| Advisory Panels (optional) | External experts or community representatives advising on curriculum, inclusion, or language support. |

Boards are politically accountable to the ward assembly but operate independently in educational matters. They conduct annual self-evaluations of school performance and may publish reports or host community forums, though public scrutiny mechanisms remain limited compared to systems like Wales.

*Real-World Examples of Ward-Level Innovation*

- Setagaya Ward: Supports multicultural education and collaborates with international schools like Seisen and St. Mary's to promote bilingualism and cultural integration.

- Ward Minato: mae'n cynnig cymorth dwyieithog mewn ysgolion cyhoeddus ac yn ariannu rhaglenni trochi yn y Japaneeg i blant mudol. Mae'n partneru â sefydliadau diwylliannol er mwyn sicrhau cyfeiriadedd dinesig.
- Ward Itabashi: mae'n darparu cymorth dwyieithog, gofal plant cyfnod byr, a chefnogaeth yn y gymuned i'r Japaneeg. Mae ei rhaglen Cerdyn Sukusuku yn cynnig mynediad at ofal ôl-enedigol a chynorthwywyr iaith.
- Ward Edogawa: mae'n cynnig dosbarthiadau bach a chymorthdaliadau cinio llawn. Mae'n ariannu ystafelloedd dosbarth ar gyfer y Japaneeg ac yn cydweithio â Sefydliadau Nid-er-elw lleol i gefnogi pobl i gynnal iaith dreftadaeth.

資金を提供しています。また、文化施設と連携し、市民オリエンテーションを行っています。

- 板橋区：バイリンガル支援、ショートステイ保育、地域密着型の日本語サポートを提供しています。「すくすくカード」プログラムでは、産後ケアや言語ヘルパーへのアクセスを提供しています。
- 江戸川区：少人数制クラスと給食費全額補助を提供しています。日本語教室への資金提供に加え、地域のNPOと連携し、継承語の維持を支援しています。

- Minato Ward: Offers bilingual support in public schools and funds Japanese-language immersion programmes for migrant children. Partners with cultural institutions for civic orientation.
- Itabashi Ward: Provides bilingual assistance, short-stay childcare, and community-based Japanese language support. Its Sukusuku Card programme offers access to postnatal care and language helpers.
- Edogawa Ward: Offers small class sizes and full lunch subsidies. Funds Japanese-language classrooms and collaborates with local NPOs to support heritage language maintenance.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae ymreolaeth ar lefel ward yn galluogi ymatebion wedi'u teilwra i anghenion lleol, boed trwy gynlluniau trochi peilot, staffio dwyieithog, neu ymgysylltu â'r gymuned.

これらの例は、イマージョンパイロット、バイリンガルスタッフ、コミュニティの関与など、区レベルの自治によって地域のニーズに合わせた対応がどのように可能になるかを示しています。

These examples illustrate how ward-level autonomy enables tailored responses to local needs, whether through immersion pilots, bilingual staffing, or community engagement.

### 1.5. Gwerthuso a Goruchwylio yn Nhirwedd Addysg Drochi Tokyo

Mae dull gwerthuso addysgol Tokyo yn adlewyrchu symudiad i ffwrdd oddi wrth arolygu o'r brig i lawr, tuag at welliant dan arweiniad ysgolion, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac adfyfyrio sy'n seiliedig ar ddata. Er nad oes gan Japan arolygiaeth genedlaethol debyg i Estyn, mae Tokyo wedi datblygu system aml-haenog sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng atebolrwydd mewnol a dilysu allanol, yn enwedig mewn cyd-destunau trochi a dwyieithog.

*Gwerthuso ar Lefel Fetropolitan (TMBE)*

- Hunanasesiadau Blynyddol yr Ysgol: mae pob ysgol uwchradd fetropolitan yn cyflwyno adroddiad manwl sy'n cwmpasu canlyniadau academaidd, meincnodau hyfedredd iaith (e.e. CEFR ar gyfer Saesneg, JFT-Basic ar gyfer Japaneeg, dangosyddion llesiant, ac arloesi mewn addysgeg).
- Paneli Adolygu Allanol: yn cynnwys addysgwyr, ymchwilwyr, a chynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r paneli hyn yn adolygu adroddiadau hunanasesu, yn cynnal ymweliadau safle neu gyfweliadau, ac yn rhoi adborth i gynghori.
- Adrodd Cyhoeddus: mae TMBE yn cyhoeddi data am berfformiad ysgolion, cynlluniau gwella, a phroffiliau ysgolion arbenigol, gan hyrwyddo tryloywder ac aliniad strategol heb roi sgoriau sy'n cosbi.

*Gwerthuso ar Lefel Ward*

- Cylchoedd Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu: mae ysgolion yn gosod nodau blynyddol gyda'u bwrdd ward (e.e. lansio unedau CLIL), yn

### 1.5. 東京のイマージョン教育における評価と監督

東京の教育評価へのアプローチは、トップダウン型の検査から、学校主導の改善、関係者の関与、そしてデータに基づく振り返りへと移行していることを反映しています。日本にはEstynのような国の検査機関はありませんが、東京は特にイマージョン教育とバイリンガル教育の分野において、内部の説明責任と外部検証のバランスをとる多層的なシステムを構築しています。

*首都圏レベル評価（TMBE）*

- 年次学校自己評価：各都立高校は、学業成績、言語能力基準（例：英語：CEFR、日本語：JFT-Basic）、ウェルビーイング指標、教育法の革新に関する詳細な報告書を提出します。
- 外部評価委員会：教育者、研究者、地域住民の代表者で構成されます。これらの委員会は、自己評価報告書を審査し、現地視察や面談を実施し、助言的なフィードバックを提供します。
- 公開報告：TMBEは、学校の業績データ、改善計画、専門学校のプロフィールを公開し、懲罰的な評価をすることなく、透明性と戦略的な整合性を促進します。

*病棟レベルの評価*

- PDCAサイクル：学校は、区の理事会と連携して年間目標（例：CLILユニットの導入）を設定し、戦略を

### 1.5. Evaluation and Oversight in Tokyo's Immersion Education Landscape

